



Cyngor Archifau a
Chofnodion Cymru
Archives and Records
Council Wales



Cyflwyno eich Gwasanaeth Archifau



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government



Archifau yw'r cofnod ysgrifenedig o'n bywydau – sy'n darparu tystiolaeth o weithgareddau sefydliadau, busnesau, pobl a chymunedau. Mae gwasanaethau archifau ledled Cymru yn casglu ac yn cadw'r cofnodion hyn yn ddiogel, fel eu bod ar gael yn awr ac yn y dyfodol, ac y gellir eu defnyddio i gefnogi nodau sefydliadol a blaenoriaethau strategol. Mae'r canllaw cyfeirio hwn yn rhoi gwybodaeth i chi am beth yw archifau, pam eu bod yn bwysig, a beth all eich gwasanaeth archifau ei wneud i chi a'ch sefydliad.

Cynhyrchwyd y canllaw hwn gan Gyngor Archifau a Chofnodion Cymru, y corff cynrychioliadol ar gyfer sefydliadau a chymdeithasau ledled Cymru sy'n ymwneud â gofalu am archifau.¹ Rydym yn gobeithio bod y canllaw hwn yn ddefnyddiol fel cyflwyniad i'ch gwasanaeth archifau a'r manteision y mae'n eu darparu. Darperir dolenni isod i gael rhagor o wybodaeth fanwl os oes angen; mae astudiaethau achos ar wahân yn dangos cyfraniad gwasanaethau penodol at agendâu allweddol.

Beth yw Archifau?	_____	tudalen 4
Gwasanaethau Archifau yng Nghymru	_____	tudalen 6
Pam mae Archifau yn Bwysig?	_____	tudalen 8
Rhagor o wybodaeth	_____	tudalen 10
Astudiaethau Achos	_____	tudalen 12

1 <https://archifau.cymru/beth-yw-archifau>

Beth yw Archifau?

Mae archifau yn gofnod ysgrifenedig dilys o'r byd rydym yn byw ynddo.¹ Rydym i gyd yn cadw cofnodion fel rhan o'n bywyd a'n gwaith bob dydd – cofnodion o drafodion a pherchnogaeth, cofnodion o benderfyniadau, a chofnodion o'n profiadau. Yn aml yn unigryw ac yn anhepgor, bydd llawer o'r cofnodion hyn yn bwysig at ddibenion cyfreithiol a thystiolaeth, ac mae angen eu rheoli'n effeithiol drwy gydol eu cylch bywyd er mwyn rheoli risg o ran gwybodaeth a sicrhau cydymffurfiaeth statudol. Ac eto, mae gan archifau werth ehangach hefyd, gan adlewyrchu ein bywyd cymdeithasol, diwylliannol a chymunedol, adrodd straeon ein cymunedau amrywiol, hyrwyddo dealltwriaeth, cynhwysiant a chydaddoldeb.

Ystyrir bod gan y cofnodion hynny sy'n cael eu dewis, eu casglu a'u cadw fel archifau y gwerth hirdymor hwn – naill ai ar gyfer eu creawdwyr, neu ar gyfrif eu harwyddocâd hanesyddol ehangach. I lawer o sefydliadau, mae eu harchif yn ased pwysig, yn gyfrwng ar gyfer gwneud penderfyniadau a gweithredu'n effeithiol, ac yn fodd i ddangos tryloywder, uniondeb a llywodraethu da.

Mae archifau, fel gyda chofnodion eu hunain, yn dod ar sawl ffurf, yn ffisegol ac yn ddigidol. Maen nhw'n cyfleu'r gorffennol, ond maen nhw'n dystiolaeth o'u presennol, yng ngeiriau a chyfryngau eu hamser – o'r siarter ganoloesol, llythyr wedi'i ysgrifennu â llaw, neu gofnod wedi'i deipio, i gronfa ddata ddigidol heddiw. Wedi'u cofnodi'n hanesyddol ar gyfryngau ffisegol, mae gan y rhan fwyaf o wasanaethau archifau gasgliadau sylweddol o ffeiliau gweinyddol, adroddiadau a gohebiaeth, ynghyd ag elfennau amlgyfrwng, fel mapiau, darluniau, ffotograffau, ffilmiau a recordiadau sain. Fodd bynnag, mae archifau heddiw yn cael eu creu fwyfwy mewn fformatau digidol, wrth i sefydliadau ac unigolion newid i weithio a chadw cofnodion yn ddigidol.



Mae'r 'newid digidol' hwn yn rhoi cyfleoedd na welwyd eu tebyg o'r blaen i sefydliadau gysylltu â'u cymunedau a'u cynulleidfaoedd, ond mae hefyd yn dod â heriau enfawr yn ei sgil. Mae cofnodion a gafodd eu creu yn ddigidol o'r dechrau a chofnodion sydd wedi'u digideiddio yn eu hanfod yn fyrhoedlog (yn dibynnu ar galedwedd a meddalwedd sy'n newid yn gyson), ac mae archifau digidol – cronfeydd data, ffeiliau, negeseuon e-bost, amlgyfrwng – angen mesurau cadw penodol i sicrhau eu bod yn goroesi.³

Eich gwasanaeth archifau yw'r ffordd y caiff yr archifau sy'n bwysig i'ch etholaeth eu dewis, eu casglu a'u cadw i'w defnyddio nawr a chan genedlaethau'r dyfodol. Mae'n adnodd allweddol i'ch sefydliad, a dylid ei ddeall a'i ddefnyddio'n well.

3 Polisi Cadwraeth Ddigidol i Gymru
 (<https://archifau.cymru/wp-content/uploads/2017/11/polisi-cadwedigaeth-ddigidol-i-gymru.pdf>)
 Polisi Cadwraeth Ddigidol i Gymru: Atodiad Technegol
 (<https://archifau.cymru/wp-content/uploads/2017/11/polisi-cadwedigaeth-ddigidol-i-gymru-atodiad-technegol.pdf>)

Ledled Cymru, ceir gwasanaethau archifau mewn awdurdodau lleol, sefydliadau addysg uwch, a'n cyrff cenedlaethol.⁴

Mae'r gwasanaethau archifau hyn yn gweithio ar ran eu rhiant gorff i gyflawni ei rwymedigaethau i ddiogelu a darparu mynediad at archifau, ac i sicrhau bod potensial yr adnodd unigryw hwn yn cael ei wireddu'n llawn.

Bydd eich gwasanaeth archifau yn nodi ac yn casglu cofnodion o werth parhaus i'ch sefydliad a'r gymuned y mae'n ei gwasanaethu; yn eu cadw'n ddiogel mewn amgylcheddau storio sydd wedi'u llunio i'w diogelu ar gyfer y dyfodol; ac yn hyrwyddo mynediad at yr archif hon yn gorfforol ac ar-lein, i gefnogi cenhadaeth a gweithgareddau ehangach y sefydliad. Mae'r ffordd y maent yn gwneud hyn yn cael ei reoli gan ddeddfwriaeth, safonau proffesiynol ac arferion gorau, a'i ddilysu drwy broses achredu ledled y DU sy'n seiliedig ar y Safon Achredu Gwasanaeth Archifau..⁵

Mae gan gynghorau rwymedigaethau statudol i gadw cofnodion o'u penderfyniadau ac i reoli a sicrhau bod y cofnodion hynny ar gael; mae ganddynt hefyd yr hawl i gaffael a chadw archifau o arwyddocâd lleol a grëwyd gan gyrff eraill.⁶

Mae gan awdurdodau lleol yng Nghymru ddyletswydd statudol i ddarparu gwasanaethau archif dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 – mae adran 60 y Ddeddf honno yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau gynnal cynllun ar gyfer gofalu'n briodol am eu cofnodion (ac archifau hanesyddol), eu cadw a'u rheoli. Caiff cydymffurfiaeth ei goruchwyllo gan Lywodraeth Cymru, drwy'r cynllun Achredu Gwasanaethau Archifau, a disgwylir i wasanaethau gyflawni a chynnal statws Achrededig.

4 Dewch o hyd i'ch Archif yma: Gwasanaethau Archifau Cymru (<https://archifau.cymru>)

5 Achredu Gwasanaethau Archifau (<https://www.llyw.cymru/cyflwyno-cais-i-achredu-gwasanaeth-archifau>) (<https://www.nationalarchives.gov.uk/archives-sector/archive-service-accreditation>)

6 Sail statudol archifau awdurdodau lleol (<https://www.nationalarchives.gov.uk/archives-sector/legislation/statutory-basis-of-local-authority-archives>)
Deddfau Llywodraeth Leol (<https://www.nationalarchives.gov.uk/information-management/legislation/other-archival-legislation/local-government-acts>)



Bydd gwasanaethau archifau mewn sefydliadau addysg uwch fel arfer yn canolbwyntio ar ymchwil arbenigol, ac yn dal casgliadau o arwyddocâd rhyngwladol yn y meysydd hyn, gan gefnogi agendâu ymchwil ac addysgu, a denu cyllid a myfyrwyr.

Mae archifau o bwysigrwydd cenedlaethol i ddiwylliant a hanes Cymru yn cael eu cadw gan ein cyrff cenedlaethol – Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol Cymru, a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru.

Ar gyfer y gwasanaethau hyn, mae Achrediad Gwasanaethau Archifau yn farciwr pwysig o ansawdd gwasanaeth, sy'n rhoi sicrwydd i randdeiliaid a chyllidwyr bod y gwasanaeth yn bodloni safonau proffesiynol a bod ganddo ymrwymiad gweladwy a hirdymor i'w gasgliadau o archifau.

Mae llawer o wasanaethau archifau yng Nghymru hefyd yn cael eu penodi'n Fannau Adneuo cyfreithiol⁷ i gadw cofnodion cyhoeddus a gynhyrchir yn lleol (er enghraifft, cofnodion llysoedd, crwneriaid, ysbytai a charchardai) ar ran llywodraeth ganolog, yn unol â Deddf Cofnodion Cyhoeddus 1958. Unwaith eto, disgwylir i'r Mannau Adneuo gyflawni a chynnal statws Achrededig.

Mae gwasanaeth archifau sy'n cael ei reoli'n dda yn adnodd sefydliadol allweddol, sy'n gwneud i'ch archifau weithio i chi, yn cefnogi llywodraethu da, ac yn galluogi cydymffurfiaeth â threfniadau deddfwriaeth gwybodaeth ehangach.⁸ Mae ganddo'r arbenigedd proffesiynol i ddarparu gwasanaeth cynaliadwy a chysylltiedig, sy'n cefnogi eich sefydliad i gyflawni ei genhadaeth a chwrdd â'i ddyletswyddau statudol i reoli, cynnal a darparu mynediad at yr wybodaeth a ddelir ganddo.

7 Mannau Adneuo
(<https://www.nationalarchives.gov.uk/archives-sector/legislation/approved-places-of-deposit/>)
Deddf Cofnodion Cyhoeddus – Cwestiynau Cyffredin
(<https://www.nationalarchives.gov.uk/information-management/legislation/public-records-act/pr-faqs/>)

8 Deddf Rhyddid Gwybodaeth
(<https://www.nationalarchives.gov.uk/information-management/legislation/section-46/>)
Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data
(https://www.nationalarchives.gov.uk/archives-sector/legislation/archives-data-protection-law-uk/gdpr-faqs/_)

Pam mae Archifau yn Bwysig?

Mae gwasanaethau archifau yn adnodd pwerus ar gyfer cefnogi nodau sefydliadol a blaenoriaethau strategol. Mae archifau yn gofnodion sy'n cael eu dewis, eu casglu a'u cadw ar gyfer y dyfodol oherwydd eu gwerth parhaus i ni heddiw, ac am genedlaethau i ddod. Gall buddsoddi yn eich gwasanaeth archifau i wireddu'r gwerth hwnnw arwain at fanteision ar draws amrywiaeth o agendâu allweddol.

Tystiolaeth

Ar gyfer Tystiolaeth – cyflawni rheidrwydd cyfreithiol, neu fel ffynhonnell gyfeirio ar gyfer penderfyniadau neu weithredoedd cyhoeddus neu breifat – gan ddangos tryloywder ac atebolrwydd.

Mae archifau'n diogelu cofnodion y llywodraeth, sefydliadau a busnesau - sy'n cael eu defnyddio yng nghyswllt mynnu hawliau, cam-ddefnyddio tystiolaeth, a llywio camau gweithredu yn y dyfodol.

Astudiaethau Achos:

Cefnogi anghenion busnes; Cefnogi ymholiadau statudol

Ymchwil

Ar gyfer Ymchwil – fel cofnod unigryw a sylfaenol o arloesedd, hanes a diwylliant – gan ddarparu adnodd cyfoethog ar gyfer dysgu a datblygu.

Mae archifau'n diogelu'r cofnodion sy'n sylfaen i weithgarwch ymchwil - yn cael eu defnyddio i ddeall ein gorffennol, ac i arloesi ar gyfer y dyfodol.

Astudiaethau Achos :

Daucanmlwyddiant y brifysgol; Cefnogi ymchwil

Cymuned

Ar gyfer Cymuned – adrodd straeon ein cymunedau lleol amrywiol – cefnogi creu lleoedd, cydlyniant cymunedol, ac ymdeimlad o berthyn a balchder lleol.

Mae archifau'n diogelu cofnodion y bobl a'r grwpiau sy'n ffurfio ein cymunedau – yn cael eu defnyddio i hyrwyddo dealltwriaeth, cynhwysiant a chydaddoldeb.

Astudiaethau Achos:

Pontio Diwylliannau; Gwirfoddoli digidol; Adlewyrchu cynulleidfaoedd amrywiol;

Adlewyrchu cynulleidfaoedd LHDTCT⁺; Gweithio gyda chymunedau ffoaduriaid



Pobl

Ar gyfer Pobl – cysylltu pobl â'u gorffennol, eu helpu i ddeall eu hunaniaeth bersonol a'u lle mewn cymdeithas – gan ddangos tystiolaeth o hunaniaeth a hawliau unigolion.

Mae archifau'n diogelu cofnodion unigolion a lleoedd a sefydliadau y maent yn cysylltu â nhw – yn cael eu defnyddio i gadarnhau hunaniaeth bersonol, a hyrwyddo iechyd a lles.

Astudiaethau Achos:

Pobl sydd wedi'u mabwysiadu ac sydd â phrofiad o ofal; Etholwyr tramor; Presgripsiynu Cymdeithasol

Cymru

Ar gyfer Cymru – mae archifau'n ganolog i'n hunaniaeth genedlaethol, ein diwylliant a'n hiaith – gan ddatgelu ein gorffennol, egluro ein presennol, ac arwain ein dyfodol fel cenedl gydnerth a balch.

Mae archifau'n diogelu cof torfol cenedl – yn cael eu defnyddio i ddeall ein stori genedlaethol, ac i lywio datblygiad cynaliadwy ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Astudiaethau Achos:

Cof Cenedl; Prosiect Deiseb Heddwch Menywod Cymru

Gweithredu

Ar gyfer Gweithredu – mae archifau yn adnodd unigryw a chyfoethog ar gyfer dysgu, datblygu sgiliau, gwydnwch cymunedol, ac ymgysylltu cymdeithasol – gan alluogi gweithredu cynaliadwy.

Mae archifau'n diogelu ein hanes, ein treftadaeth a'n hunaniaeth – yn cael eu defnyddio gan a chyda phobl i gefnogi mentrau sy'n mynd i'r afael ag anghenion cymdeithasol ac yn gwella ansawdd bywyd.

Case Studies :

Newid Hinsawdd yn yr archifau; Storio archifau mewn modd effeithlon o ran ynni; Archifau Cof

Rhagor o wybodaeth

- 1** Sefydlwyd Cyngor Archifau a Chofnodion Cymru ym mis Mai 1995 fel corff cynrychioliadol ar gyfer sefydliadau a chymdeithasau ledled Cymru sy'n ymwneud â gofalu am archifau. Mae Cyngor Archifau a Chofnodion Cymru (ARCW) hefyd yn rheoli cynlluniau grant (gyda chyllid gan Lywodraeth Cymru) i gefnogi gwaith gwasanaethau aelodau o ran diogelu a darparu mynediad at adnoddau archifol. I gael rhagor o wybodaeth am Gyngor Archifau a Chofnodion Cymru, ewch i:
(<https://archifau.cymru/beth-yw-archifau>)
- 2** Beth yw Archifau?
(<https://archifau.cymru/beth-yw-archifau>)
- 3** Polisi Cadwraeth Ddigidol i Gymru
(<https://archifau.cymru/wp-content/uploads/2017/11/polisi-cadwedigaeth-ddigidol-i-gymru.pdf>)
and Polisi Cadwraeth Ddigidol i Gymru: Atodiad Technegol
(<https://archifau.cymru/wp-content/uploads/2017/11/polisi-cadwedigaeth-ddigidol-i-gymru-atodiad-technegol.pdf>)
- 4** Dewch o hyd i'ch Archif yma: Gwasanaethau Archifau Cymru
(<https://archifau.cymru>)
- 5** Achredu Gwasanaethau Archifau
(<https://www.llyw.cymru/cyflwyno-cais-i-achredu-gwasanaeth-archifau>)
(<https://www.nationalarchives.gov.uk/archives-sector/archive-service-accreditation>)
- 6** Sail statudol archifau awdurdodau lleol
(<https://www.nationalarchives.gov.uk/archives-sector/legislation/statutory-basis-of-local-authority-archives>)
Deddfau Llywodraeth Leol
(<https://www.nationalarchives.gov.uk/information-management/legislation/other-archival-legislation/local-government-acts>)



7 Mae Mannau Adneuo yn dod dan oruchwyliaeth yr Archifau Cenedlaethol, a disgwylir iddynt fodloni gofynion y Safon Achredu Gwasanaethau Archifau. Gweler:

Mannau Adneuo

(<https://www.nationalarchives.gov.uk/archives-sector/legislation/approved-places-of-deposit/>)

Deddf Cofnodion Cyhoeddus – Cwestiynau Cyffredin

(<https://www.nationalarchives.gov.uk/information-management/legislation/public-records-act/prc-faqs/>)

Yr Archifau Cenedlaethol (TNA) yn Kew yw'r gwasanaeth archifau cenedlaethol ar gyfer y Deyrnas Unedig, Cymru a Lloegr. Mae'n cyflawni rôl arwain ar gyfer y sector archifau yn Lloegr, ond mae hefyd yn darparu cyngor ac arweiniad proffesiynol ar gyfer Mannau Adneuo yng Nghymru, a rheolaeth gyffredinol y cynllun Achredu Gwasanaethau Archifau.

8 Deddf Rhyddid Gwybodaeth


(<https://www.nationalarchives.gov.uk/information-management/legislation/section-46/>)

Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data

(https://www.nationalarchives.gov.uk/archives-sector/legislation/archives-data-protection-law-uk/gdpr-faqs/_)

Astudiaethau Achos





Cefnogi anghenion busnes cyfredol

Mae Archifdy Ceredigion yn gweithio gyda chofnodion cyfredol ac archifau hanesyddol y cyngor i gefnogi busnes yr awdurdod lleol o ddydd i ddydd.

Crynodeb

Mae gwasanaeth Rheoli Archifau, Gwybodaeth a Chofnodion Ceredigion yn darparu gwasanaeth rheoli archifau a chofnodion integredig i Gyngor Sir Ceredigion – gan gynnal ei gof corfforaethol, galluogi cydymffurfiaeth statudol, a sicrhau bod asedau gwybodaeth yn cael eu rheoli'n effeithiol, a'u bod ar gael i gefnogi busnes bob dydd yn ôl yr angen.

Blaenoriaethau Strategol / Sefydliadol

Mae gan awdurdodau lleol, yn yr un modd â chyrff eraill yn y sector cyhoeddus, ddyletswyddau statudol i ddarparu mynediad at wybodaeth, ac i fodloni gofynion cyfreithiol a statudol cysylltiedig sy'n ymwneud â chadw cofnodion – yn enwedig cydymffurfio â chyfraith Diogelu Data a Rhyddid Gwybodaeth. Mae rheoli gwybodaeth a chofnodion yn effeithiol yn cefnogi Cyngor Sir Ceredigion i ddarparu gwerth am arian, gwasanaethau cynaliadwy, yn unol â'i Strategaeth Gorfforaethol 2022-27 a *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*.

Gweithgaredd

Mae pob sefydliad yn creu, yn casglu ac yn rheoli corff sylweddol o wybodaeth sy'n hanfodol er mwyn gweinyddu eu busnes craidd yn effeithiol ac yn effeithlon – gan gefnogi'r gwaith o lunio polisïau a gwneud penderfyniadau; diogelu buddiannau'r sefydliad; dangos atebolrwydd i randdeiliaid; a sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol a statudol. Cedwir rhywfaint o'r wybodaeth hon o fewn systemau busnes presennol, ond gellir dod o hyd i gofnodion o werth tymor hwy yn yr archifau lle maent ar gael i gyfeirio atynt pan fo angen.

Mae Gwasanaeth Rheoli Cofnodion, Gwybodaeth ac Archifau Ceredigion yn gweithio fel tîm integredig i ddarparu gwasanaeth rheoli cofnodion cyflawn ar gyfer yr awdurdod lleol, yn ogystal â darparu ar gyfer ei archifau hanesyddol. Mae ei rôl yn cynnwys: cynghori ar reoli cofnodion traddodiadol a digidol; cyfrifoldeb dros Ddiogelu Data a Cheisiadau am Fynediad at Ddata gan y Testun; hyfforddiant staff ar ddiogelwch gwybodaeth a Diogelu Data; a chefnogaeth ar gyfer cydymffurfio â Rhyddid Gwybodaeth.



Mae'r gwasanaeth yn cefnogi busnes y cyngor drwy ddarparu mynediad amserol at gofnodion perthnasol (gan gynnwys archifau) ar gyfer adrannau gwasanaethau cyfreithiol, cynllunio a gofal cymdeithasol yn benodol.

Mae hefyd wedi galluogi cynlluniau corfforaethol allweddol fel mabwysiadu Microsoft 365 ar gyfer rheoli data electronig, lle mae datblygu amserlen cadw newydd yn sicrhau bod cofnodion yn cael eu cadw cyn hired ag y bo angen yn unig, ac yna'n cael eu gwaredu'n briodol.

Effaith

Mae gwasanaethau archifau yn ystorfa wybodaeth allweddol ar gyfer eu rhiant gorff, ac maent yn gweithio gyda chydweithwyr rheoli gwybodaeth a chofnodion cyfredol i sicrhau bod y sefydliad yn gallu cael gafael ar yr wybodaeth a'r dystiolaeth sydd ei hangen arno. Maent yn adnodd allweddol ar gyfer gweithredu effeithiol, atebolrwydd, ac ar gyfer cydymffurfio â gofynion cyfreithiol a statudol.

Rhagor o wybodaeth:

archifdy-ceredigion.org.uk/policies.php?lang=cy

www.ceredigion.gov.uk/media/5082/information-and-records-management-policy-v20-cymraeg.pdf

Cefnogi ymchwiliadau statudol

Roedd gwasanaethau archifau ledled Cymru yn ffynonellau pwysig o dystiolaeth ar gyfer yr Ymchwiliad i Waed Heintus, ymchwiliad cyhoeddus statudol i effaith defnyddio cynhyrchion gwaed heintiedig ar ddynion, menywod a phlant a gafodd eu trin gan y GIG.

Crynodeb

Cymerodd yr Ymchwiliad i Waed Heintus dystiolaeth rhwng mis Ebrill 2019 a mis Ionawr 2023, gyda gwasanaethau archifau yn cefnogi timau'r Ymchwiliad drwy ddarparu gwybodaeth am eu casgliadau a mynediad atynt ar gyfer ymchwil dystiolaethol. Bydd y dystiolaeth hon yn rhan o ganfyddiadau'r Ymchwiliad, ac yn cyfrannu at sicrhau bod yr amgylchiadau sy'n ymwneud â defnyddio cynhyrchion gwaed heintiedig, ac effaith eu defnyddio, yn cael eu deall yn llawn.

Blaenoriaethau Strategol / Sefydliadol

Mae gwasanaethau archifau yn cadw cofnodion nid yn unig am eu gwerth diwylliannol neu sefydliadol, ond am eu bod yn dystiolaeth o weithredu a gwneud penderfyniadau y gellir eu defnyddio i ddal ein sefydliadau cyhoeddus i gyfrif – i fynnu hawliau, dangos tystiolaeth o gam-drin, a llywio camau gweithredu yn y dyfodol. Mae llawer o wasanaethau archifau yng Nghymru wedi'u penodi'n Fannau Adnewyddu cyfreithiol dan *Ddeddf Cofnodion Cyhoeddus 1958*, ac yn cadw cofnodion cyhoeddus a gynhyrchir yn lleol, gan gynnwys cofnodion iechyd, ar ran llywodraeth ganolog. Anogwyd Mannau Adnewyddu yng Nghymru i gynorthwyo'r Ymchwiliad gyda mynediad at gofnodion cyhoeddus perthnasol; fel ymchwiliad cyhoeddus ffurfiol, dan *Ddeddf Ymchwiliadau 2005*, roedd gan yr Ymchwiliad hefyd bwerau i orfodi dangos y dystiolaeth ofynnol.

Gweithgaredd

Ym mis Gorffennaf 2017, cyhoeddodd Llywodraeth y DU Ymchwiliad i waed a chynhyrchion gwaed heintiedig. Roedd hwn yn Ymchwiliad statudol cyhoeddus annibynnol, a sefydlwyd i archwilio'r amgylchiadau lle cafodd dynion, menywod a phlant a gafodd eu trin gan Wasanaethau Iechyd gwladol yn y Deyrnas Unedig eu heintio â hepatitis C a/neu HIV drwy waed heintiedig a chynhyrchion gwaed heintiedig ers y 1970au.



Clywodd y rhai a oedd yn gweithio ar yr Ymchwiliad amrywiaeth eang o dystiolaeth gan y rhai yr effeithiwyd arnynt, eu teuluoedd a sefydliadau cynrychioladol, a chefnogodd gwasanaethau archifau dimau'r Ymchwiliad drwy ddarparu gwybodaeth am eu casgliadau a mynediad atynt ar gyfer ymchwil i dystiolaeth.

Gofynnwyd i wasanaethau archifau (Mannau Adneuo) ddarparu gwybodaeth i'r timau ymchwil am gofnodion iechyd yn eu gofal a allai fod o ddefnydd i'r Ymchwiliad, ac ymwelodd timau o ymchwilwyr â gwasanaethau archifau i archwilio'r cofnodion hyn am dystiolaeth. Roedd y rhain yn cynnwys cofnodion o ysbytai a byrddau iechyd; llyfrau cofnodion o reolaeth ac is-bwyllgorau ysbytai; cofnodion ac adroddiadau byrddau iechyd; cofrestrau gweithrediadau; dogfennau ymgynghori; gohebiaeth, cylchlythyrau, adroddiadau a llawer mwy.

Effaith

Mae'r dystiolaeth a gafwyd o'r ymchwil yn yr archifau wedi bwydo i mewn i Adroddiad yr Ymchwiliad, a fydd yn archwilio pam y rhoddwyd gwaed wedi'i heintio a/neu gynhyrchion gwaed wedi'u heintio i ddynion, menywod a phlant yn y DU; yr effaith ar eu teuluoedd; sut yr ymatebodd yr awdurdodau (gan gynnwys y llywodraeth); natur unrhyw gymorth a ddarparwyd yn dilyn heintio; cwestiynau o ran cydsynio; ac a guddiwyd pethau.

Rhagor o wybodaeth:

www.infectedbloodinquiry.org.uk

200 mlynedd o addysg uwch yng Nghymru

Chwaraeodd Casgliadau Arbennig ac Archifau ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant ran bwysig yn ei dathliadau daucanmlwyddiant.

Crynodeb

Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yw'r Brifysgol hynaf yng Nghymru sydd â Siarter Frenhinol. Roedd ei daucanmlwyddiant yn 2022 yn gyfle i ddathlu hanes Grŵp Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant a'i gyfraniad at addysg yng Nghymru, a hyrwyddo ei lwyddiant parhaus fel darparwr addysg uwch.

Blaenoriaethau Strategol / Sefydliadol

Mae *Cynllun Strategol y Drindod Dewi Sant 2017-22 a 2022-24* wedi ymrwymo i ddysgwyr ac i Gymru, gyda *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015* wrth galon ei chynllunio. Mae'n cydnabod ei rôl leol, genedlaethol, rhwngwladol a dinesig fel darparwr addysg uwch, ac yn dymuno dathlu diwylliant, treftadaeth ac iaith fywiog Cymru.

Gweithgaredd

Chwaraeodd Casgliadau Arbennig ac Archifau Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant ran bwysig yn y dathliadau deucanmlwyddiant, gan gydweithio'n agos ag adrannau corfforaethol eraill, i adrodd hanes y brifysgol, a hyrwyddo Grŵp Prifysgol y Drindod Dewi Sant i fyfyrwyr y dyfodol.

Yn ystod y dathliad dros gyfnod o flwyddyn, cynhaliodd dros ugain o arddangosfeydd ar-lein a ffisegol, cynhaliodd ddarlithoedd ar amrywiaeth o bynciau o'r casgliadau, a chwblhaodd brosiect i ysgrifennu bywgraffiadau byr o ddau gant o gyn-staff a chyn-fyfyrwyr mwyaf blaenllaw'r brifysgol. Cafodd 200 Bywgraffiad – *Yn Dathlu Daucanmlwyddiant Llambod* ei gyhoeddi mewn pedair cyfrol wedi'u hargraffu, a'u hatgynhyrchu mewn cronfa ddata ar-lein ar wefan y brifysgol.

Roedd Casgliadau Arbennig ac Archifau hefyd yn adnodd allweddol ar gyfer cynhyrchu llyfr llawn lluniau, *Trysorau: Casgliadau Arbennig Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant*, a gyhoeddwyd gan Wasg Prifysgol Cymru. Wedi'i ysgrifennu gan aelodau o'r tîm Casgliadau Arbennig, ac aelodau blaenorol a phresennol o'r staff academiaidd, roedd yn dathlu deugain o wrthrychau o'r Casgliadau Arbennig.



Renealmia nutans, Robert John Thornton, *New illustration of the sexual system of Carolus von Linnæus* (1799-1807) Casgliadau Arbennig ac Archifau PCDDS

Effaith

Roedd y gwaith a wnaed gan Gasgliadau Arbennig ac Archifau'r Drindod Dewi Sant yn ganolog i ddathliadau'r ddaucanmlwyddiant, gan hyrwyddo'r brifysgol a'i chyfraniad at addysg yng Nghymru a chodi ei phroffil. Mae'r llyfr *Trysorau* wedi dod â nifer o ymwelwyr i'r brifysgol i weld ei chasgliadau, ac mae'r cyhoeddiad 200 Bywgraffiad bellach yn cael ei ddefnyddio gan adran farchnata'r Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant i gefnogi recriwtio myfyrwyr.

Rhagor o wybodaeth:

www.uwtsd.ac.uk/cy/llyfrgell/casgliadau-arbennig-ac-archifau

Cefnogi ymchwil a dealltwriaeth ddiwylliannol

Defnyddio'r casgliadau yn Archifau a Chasgliadau Arbennig Prifysgol Bangor i gefnogi ymchwil, ac archwilio materion cymdeithasol a diwylliannol amrywiol.

Crynodeb

Mae gan archifau fel casgliad Castell Penrhyn botensial enfawr ar gyfer ymchwil academaidd ac ar gyfer deall materion sy'n ymwneud ag ymrafael gwleidyddol, diwylliannol, crefyddol a chymdeithasol. Maent yn adnodd unigryw, sy'n darparu adnoddau ymchwil a dysgu gwerthfawr i staff a myfyrwyr, ac yn fodd i ymgysylltu â chymunedau amrywiol a hyrwyddo dealltwriaeth.


Blaenoriaethau Strategol / Sefydliadol

Mae *Strategaeth 2030* Prifysgol Bangor yn cynnig gweledigaeth o sut y gall gyfrannu at fyd cynaliadwy ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, yn unol â nodau *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*. Ei nod yw bod yn Brifysgol sy'n cael ei harwain gan ymchwil, yng Ngogledd Cymru ac ar gyfer Gogledd Cymru gan gael effaith gadarnhaol ar gymdeithas yn rhanbarthol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

Gweithgaredd

Mae Archifau a Chasgliadau Arbennig Prifysgol Bangor yn cynnal amrywiaeth eang o gasgliadau archifol, gan ganolbwyntio'n benodol ar bapurau ystadau a theuluoedd. Casgliad Castell Penrhyn yw ei gasgliad ystâd mwyaf sy'n cwmpasu nid yn unig weinyddiaeth ystâd wledig yng Nghymru, ond hefyd sut yr adeiladodd ei pherchnogion, y teulu Pennant, eu ffortiwn drwy'r fasnach siwgr yn Jamaica, gan fuddsoddi'r elw hwn yn niwydiant llechi Cymru. Mae'n rhychwantu cyfnod o dros 700 mlynedd, ac mae ganddo botensial ymchwil enfawr, gydag elfennau sylweddol yn ymwneud â chaethwasiaeth dramor, ac aflonyddwch diwydiannol ar ddechrau'r 20fed ganrif yng Nghymru.

Gellir defnyddio casgliadau o'r fath i archwilio amrywiaeth o feysydd o ddiddordeb ymchwil - effaith a gwaddol caethwasiaeth; datblygiad hawliau gweithwyr; neu hyd yn oed ddata sy'n berthnasol i ddatrys heriau amgylcheddol heddiw. Darperir gweithgarwch drwy'r Archifau a'r Casgliadau Arbennig ac mewn partneriaeth â chanolfannau ymchwil fel Sefydliad Ystadau Cymru, ac mae'n cynnwys: darlithoedd academaidd a chymorth addysgu; ceisiadau llwyddiannus am gyllid grant ar gyfer ymchwil, catalogio a gwaith cadwraeth; arddangosfeydd (ffisegol ac ar-lein); gweithdai; cymryd rhan mewn podlediadau; a chefnogaeth ar gyfer ymchwil PhD.



List of Rivers in Penrhyn Castle - 31st December 1712

No.	Name	Direction	No.	Name	Direction	No.	Name	Direction
1	Penrhyn	West	45	Penrhyn	West	80	Penrhyn	West
2	Penrhyn	West	46	Penrhyn	West	81	Penrhyn	West
3	Penrhyn	West	47	Penrhyn	West	82	Penrhyn	West
4	Penrhyn	West	48	Penrhyn	West	83	Penrhyn	West
5	Penrhyn	West	49	Penrhyn	West	84	Penrhyn	West
6	Penrhyn	West	50	Penrhyn	West	85	Penrhyn	West
7	Penrhyn	West	51	Penrhyn	West	86	Penrhyn	West
8	Penrhyn	West	52	Penrhyn	West	87	Penrhyn	West
9	Penrhyn	West	53	Penrhyn	West	88	Penrhyn	West
10	Penrhyn	West	54	Penrhyn	West	89	Penrhyn	West
11	Penrhyn	West	55	Penrhyn	West	90	Penrhyn	West
12	Penrhyn	West	56	Penrhyn	West	91	Penrhyn	West
13	Penrhyn	West	57	Penrhyn	West	92	Penrhyn	West
14	Penrhyn	West	58	Penrhyn	West	93	Penrhyn	West
15	Penrhyn	West	59	Penrhyn	West	94	Penrhyn	West
16	Penrhyn	West	60	Penrhyn	West	95	Penrhyn	West
17	Penrhyn	West	61	Penrhyn	West	96	Penrhyn	West
18	Penrhyn	West	62	Penrhyn	West	97	Penrhyn	West
19	Penrhyn	West	63	Penrhyn	West	98	Penrhyn	West
20	Penrhyn	West	64	Penrhyn	West	99	Penrhyn	West
21	Penrhyn	West	65	Penrhyn	West	100	Penrhyn	West
22	Penrhyn	West	66	Penrhyn	West			
23	Penrhyn	West	67	Penrhyn	West			
24	Penrhyn	West	68	Penrhyn	West			
25	Penrhyn	West	69	Penrhyn	West			
26	Penrhyn	West	70	Penrhyn	West			
27	Penrhyn	West	71	Penrhyn	West			
28	Penrhyn	West	72	Penrhyn	West			
29	Penrhyn	West	73	Penrhyn	West			
30	Penrhyn	West	74	Penrhyn	West			
31	Penrhyn	West	75	Penrhyn	West			
32	Penrhyn	West	76	Penrhyn	West			
33	Penrhyn	West	77	Penrhyn	West			
34	Penrhyn	West	78	Penrhyn	West			
35	Penrhyn	West	79	Penrhyn	West			
36	Penrhyn	West	80	Penrhyn	West			
37	Penrhyn	West	81	Penrhyn	West			
38	Penrhyn	West	82	Penrhyn	West			
39	Penrhyn	West	83	Penrhyn	West			
40	Penrhyn	West	84	Penrhyn	West			
41	Penrhyn	West	85	Penrhyn	West			
42	Penrhyn	West	86	Penrhyn	West			
43	Penrhyn	West	87	Penrhyn	West			
44	Penrhyn	West	88	Penrhyn	West			
45	Penrhyn	West	89	Penrhyn	West			
46	Penrhyn	West	90	Penrhyn	West			
47	Penrhyn	West	91	Penrhyn	West			
48	Penrhyn	West	92	Penrhyn	West			
49	Penrhyn	West	93	Penrhyn	West			
50	Penrhyn	West	94	Penrhyn	West			
51	Penrhyn	West	95	Penrhyn	West			
52	Penrhyn	West	96	Penrhyn	West			
53	Penrhyn	West	97	Penrhyn	West			
54	Penrhyn	West	98	Penrhyn	West			
55	Penrhyn	West	99	Penrhyn	West			
56	Penrhyn	West	100	Penrhyn	West			

Llawysgrifau Penrhyn (Jamaica) cyn iddynt cael eu trin, a rhestr o gaethweision o Bapurau Castell Penrhyn ©Archifau a Chasgliadau Arbennig, Prifysgol Bangor

Mae'r casgliadau hyn hefyd yn galluogi cyfranogiad mewn prosiectau cydweithredol ehangach, fel *Mapio Dwfn Archifau Ystadau*, prosiect a ariennir gan y cyngor ymchwil i fapio cofnodion hanesyddol yn ddigidol i leoliadau yn y byd go iawn, gan hwyluso dadansoddiad manwl o barhad a newid yn y dirwedd.

Effaith

Mae'r Archifau a'r Casgliadau Arbennig wedi dod yn ffocws ar gyfer gweithgarwch ymchwil, gan weithio gyda Sefydliadau a Chanolfannau Ymchwil i gynorthwyo'r Brifysgol i gyflawni ei nodau strategol mewn perthynas â rhagoriaeth ymchwil a chynyddu incwm ymchwil. Mae'r casgliadau hyn hefyd yn bwynt gwerthu unigryw, gan helpu i ddenu myfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig. Gan weithio gyda chasgliadau penodol, gall ymchwilwyr ac archifyddion hefyd hyrwyddo dealltwriaeth ehangach o amrywiaeth o faterion sy'n effeithio ar gymdeithas heddiw.

Rhagor o wybodaeth:

www.bangor.ac.uk/cy/archifau-a-chasgliadau-arbennig

iswe.bangor.ac.uk/index.php.cy

play.acast.com/s/storiesofourtimes/thelegacyofpenrhyncastle-pt2-mapio-dwfn-archifau-ystadau-rcahmw.hub.arcgis.com/

Pontio Diwylliannau ag Archifau

Bu Archifau Richard Burton yn gweithio gyda phartneriaid ym Mhrifysgol Abertawe ar brosiect i hyrwyddo cynhwysiant a dathlu amrywiaeth yn y brifysgol.

Crynodeb

Bu Archifau Richard Burton yn gweithio gydag Academi Cynwysoldeb Prifysgol Abertawe i gefnogi prosiect Bridging Cultures (Pontio Diwylliannau), i addysgu, dathlu a rhoi gwybod i fyfyrwyr a staff am oddefgarwch a derbyn pobl o gefndiroedd diwylliannol gwahanol.

Blaenoriaethau Strategol / Sefydliadol

Mae gan Brifysgol Abertawe ymrwymiad cryf i gynhwysiant ac ehangu mynediad, i gynyddu cyfranogiad myfyrwyr o grwpiau a chymunedau a dangynrychiolir, ac i ddarparu amgylchedd diogel a chynhwysol sy'n sicrhau bod yr holl fyfyrwyr yn cael eu cefnogi i gyflawni eu potensial llawn. Mae Academi Cynwysoldeb Abertawe yn gweithio i ddarparu cymorth academaidd a bugeiliol cynhwysol i'r boblogaeth amrywiol o fyfyrwyr, drwy brosiectau sy'n cefnogi cadw myfyrwyr, cynnydd a chanlyniadau academaidd.

Gweithgaredd

Ar gyfer Archifau Richard Burton, roedd y prosiect yn gyfle i archwilio'r ffyrdd y gallai'r Archifau ddathlu amrywiaeth, adeiladu casgliadau cynrychioliadol, ac ymgysylltu â chynulleidfaoedd newydd, yn unol ag ymrwymiad ehangach y Brifysgol i gynhwysiant.

Roedd y prosiect yn cynnwys cyfuniad o weithdai ac arddangosfa ffisegol ym Mhrifysgol Abertawe. Canolbwyntiodd y Gweithdy Archifau ar hanes myfyrwyr rhyngwladol yn Abertawe, a'r cyfraniad y maent wedi'i wneud at lunio stori'r Brifysgol - gan ddefnyddio casgliad archifau'r sefydliad ei hun i ddangos sut yr ymunodd myfyrwyr o bob rhan o'r byd â'r Brifysgol o'r 1920au ymlaen. Defnyddiodd y cyfranogwyr ffotograffau, dogfennau cais, papurau newydd myfyrwyr, gohebiaeth, a deunyddiau eraill i archwilio o ble daeth myfyrwyr, y pynciau a astudiwyd ganddynt, a'r heriau a wynebwyd ganddynt.

Roedd casgliadau'r Brifysgol hefyd yn darparu tystiolaeth o agweddau ar fywyd myfyrwyr - gyda phapurau newydd myfyrwyr yn adnodd arbennig o gyfoethog ar gyfer archwilio'r hyn yr oedden nhw'n ei wneud i gael hwyl, a'u hagweddau at rywedd, perthnasoedd, hil a chrefydd. Fodd bynnag, roedd profiadau personol myfyrwyr rhyngwladol yn aml yn absennol o'r cofnod ysgrifenedig hwn, a manteisiwyd ar y cyfle i gasglu hanesion llafar gan gyfranogwyr y gweithdai i helpu i unioni hyn.



Myfyrwyr yn perfformio dawns ddiwylliannol yn ddigwyddiad lansio arddangosfa Pontio Diwylliannau ym Mhrifysgol Abertawe (Academi Cynwysoldeb Abertawe 2023).

Rhoddodd yr arddangosfa *Bridging Cultures* uchafbwynt ffisegol i'r prosiect, gan ddangos sut mae gwahanol ddiwylliannau'n cael eu cynrychioli yn yr archifau, a chyflwyno'r straeon o'r cyfweiliadau hanes llafar, sydd bellach yn rhan o'r archifau, ochr yn ochr â'r cofnodion ysgrifenedig.

Effaith

Roedd *Bridging Cultures* yn gyfle i Archifau Richard Burton fyfyrio ar ei gasgliadau ac archwilio ffyrdd o'u gwneud yn fwy cynrychioliadol ac amrywiol, gan greu cysylltiadau â chydweithwyr ar draws y Brifysgol. Rhoddodd ymdeimlad o falchder a hunaniaeth i fyfyrwyr, drwy glywed a gweld pobl sy'n edrych fel nhw yn cael eu cynrychioli yn yr Archifau. Bydd y prosiect hefyd yn sail i gyfleoedd a phartneriaethau newydd yn y dyfodol.

Rhagor o wybodaeth:

swanseauniarchives.home.blog/2023/12/03/bridging-cultures/

Crowd Cymru: gwirfoddoli digidol i Gymru

Darparodd #CrowdCymru gyfleoedd gwirfoddoli digidol i bobl o gymunedau ledled Cymru, i gyfoethogi mynediad at ein cof cenedlaethol ar y cyd.

Crynodeb

Mae Crowd Cymru yn brosiect cyfrannu torfol gwirfoddolwyr digidol, a ddefnyddiodd blatfform ar-lein dwyieithog i alluogi gwirfoddolwyr o bell i dagio, anodi a disgrifio casgliadau treftadaeth ddigidol. Roedd y prosiect yn gwella mynediad at gasgliadau archif pwysig, yn darparu cyfleoedd i bobl ddatblygu sgiliau newydd a hybu eu lles, ac yn gweithredu fel model ar gyfer prosiectau cydweithredol yn y dyfodol sy'n cefnogi cydnerthedd ac effaith y sector.

Blaenoriaethau Strategol / Sefydliadol

Datblygwyd y prosiect gan bartneriaeth traws-sector yn cynnwys Prifysgol Caerdydd, Archifau Morgannwg, Archifau Gwent a Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Roedd yn eu galluogi i ymateb i agendâu allweddol, fel y *Strategaeth Ddigidol i Gymru* gan Lywodraeth Cymru, sy'n anelu at wella bywydau a gwasanaethau cyhoeddus drwy gydweithio digidol ac arloesi. Wedi'i ariannu gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, aeth y prosiect i'r afael â nodau strategol i nodi ac esbonio casgliadau treftadaeth yn well, gwella cydnerthedd y sector, a helpu pobl i ddatblygu sgiliau newydd a chael mwy o lesiant. Roedd hefyd yn cyflawni llawer o'r nodau a nodwyd yn *Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015* ar gyfer dyfodol cynaliadwy.

Gweithgaredd

Yn dilyn y pandemig, mae gwasanaethau archifau wedi edrych ar ffyrdd o addasu eu gwasanaethau i gyrraedd cynulleidfaoedd yn fwy effeithiol ar-lein. Gweithiodd partneriaid y prosiect gyda'i gilydd i ddatblygu llwyfan cyfrannu torfol sydd eisoes wedi'i greu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru, fel y gallai gynnwys dros 4000 o eitemau digidol – o lythyrâu mewn llawysgrifen gan y bardd o'r Rhyfel Byd Cyntaf, Edward Thomas, i ffotograffau stiwdio o drigolion ardal Butetown Caerdydd.

Rhwng mis Gorffennaf 2022 a mis Tachwedd 2023, cyflogwyd swyddog prosiect i recriwtio, hyfforddi a chefnogi'r gwirfoddolwyr o bell, ac erbyn diwedd mis Tachwedd roedd naw deg o wirfoddolwyr wedi cyfrannu dros 1400 o oriau o'u hamser. Fe wnaethant wella mynediad at chwe chasgliad o'r gwasanaethau partner drwy greu data newydd am gasgliadau mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys trawsgrifiadau tudalen llawn, capsiynau a disgrifiadau, a thagio pwnc. Cafodd ymdeimlad o gymuned ei adeiladu a'i feithrin drwy gydol oes y prosiect drwy gynnal digwyddiadau cymdeithasol ar-lein yn rheolaidd a chreu lle pwrpasol ar y cyfryngau cymdeithasol ar gyfer cyfranogwyr y prosiect.



Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd yn mynychu darlith Optometreg, 1970au, Casgliadau Arbennig ac Archifau Prifysgol Caerdydd
 Portread o'r bardd rhyfel Edward Thomas (1878-1917), gan Frederick Evans, 1904, Casgliadau Arbennig ac Archifau Prifysgol Caerdydd
 Casgliad Ffotograffau cymuned dociau Caerdydd, Archifau Morgannwg
 Casgliad Ffotograffau cymuned dociau Caerdydd, Archifau Morgannwg

Effaith

Roedd y prosiect yn gallu cynnig cyfleoedd diogel a chroesawgar i wirfoddolwyr o bob cwr o Gymru a thu hwnt, i ryngweithio â'u treftadaeth, datblygu sgiliau newydd a hybu eu llesiant. Erbyn diwedd y prosiect, roedd gwirfoddolwyr wedi gwella sgiliau digidol (gwella cyflogadwyedd a llythrennedd digidol), ac roedd ganddynt well dealltwriaeth o archifau a'u hanes lleol. Roedd llawer hefyd yn teimlo bod eu llesiant wedi gwella o ganlyniad i gymryd rhan. Roedd y prosiect hefyd yn caniatáu i wasanaethau archifau ddatblygu modelau newydd ar gyfer gwirfoddoli a mynediad o bell, lleihau effeithiau amgylcheddol, a gwella gwasanaethau ar-lein.

Rhagor o wybodaeth:

gwentarchives.gov.uk/cy/partneriaethau-a-phrosiectau/crowdcymru/

Adlewyrchu Cynulleidfaoedd Amrywiol

Gweithio gyda chymunedau lleol a rhyngwladol i ddarparu lleisiau a safbwyntiau newydd ar Hanes Pobl Ddu yng Ngogledd Cymru.

Crynodeb

Gellir dod o hyd i brofiadau byw a straeon pobl o wahanol gefndiroedd a chymunedau diwylliannol mewn casgliadau archifau ledled Cymru. Mae Gwasanaeth Archifau Conwy wedi defnyddio ei gasgliadau i archwilio hanesion pobl Ddu lleol, gan weithio gydag ysgolion lleol, grwpiau cymunedol a phobl Affricanaidd i ddarparu dehongliadau newydd o'r straeon hyn.

Blaenoriaethau Strategol / Sefydliadol

Mae Gwasanaeth Archifau Conwy, fel gyda gwasanaethau archifau ledled Cymru, yn ceisio sicrhau bod ei gasgliadau'n adlewyrchu'r amrywiaeth yn y cymunedau y mae'n eu gwasanaethu. Ar gyfer awdurdodau lleol a chyrff eraill yn y sector cyhoeddus, mae cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn flaenoriaethau allweddol, gan sicrhau eu bod yn cyflawni Dyletswydd Cydraddoldeb y sector cyhoeddus (Deddf Cydraddoldeb 2010) – a chyfrannu at gynlluniau cenedlaethol fel *Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol* Llywodraeth Cymru.

Gweithgaredd

Mae gwasanaethau archifau ledled Cymru wedi bod yn gweithio i wella ymwybyddiaeth o gasgliadau diwylliannol ar gyfer pobl yn ein cymunedau amrywiol, a mynediad atynt – gyda chynlluniau fel *Datgelu Profiadau Bywyd Pobl Ddu*, *Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yng Nghymru* yn datblygu canllawiau ac adnoddau i gefnogi'r gwaith hwn.

Cymerodd Gwasanaeth Archifau Conwy, mewn partneriaeth â Gwasanaeth Amgueddfeydd Conwy, ran mewn adolygiad o gasgliadau a ariannwyd drwy *Gynllun Gweithredu Gwrth-hiliol* Llywodraeth Cymru i asesu ei gasgliadau ar gyfer deunyddiau o arwyddocâd i'r cymunedau hyn, yn ogystal ag ar gyfer hanes gwladychiaeth a chaethwasiaeth – gan ddarparu dehongliadau newydd o gasgliadau lleol.

Dechreuodd prosiect Joe Taylor gyda llun aneglur o ddyn Du mewn ffotograff o Landudno yn y cyfnod Edwardaidd, ond datgelodd fywyd amlochrog a ddaeth ag ef o America i Ogledd Cymru, lle daeth yn aelod adnabyddus ac uchel ei barch o'r gymuned. Defnyddiwyd ei stori fel ysbrydoliaeth ar gyfer arddangosfa ar-lein a phrosiect celf ysgol.



Joe Taylor (ar y chwith), Clwb Pêl-droed Llandudno [1910], trwy garedigrwydd Gwasanaeth Archifau Conwy

Mae *Ail-ddychmygu Tŷ'r Congo*, *Bae Colwyn* yn archwilio'r casgliadau o *Dŷ'r Congo*, sefydliad hyfforddi ar gyfer Affricaniaid ifanc a sefydlwyd ym Mae Colwyn yn Oes Fictoria. Mae hon yn stori leol ddadleuol ac roedd yn bwysig darparu dehongliadau newydd gyda llawer o leisiau. Mae arddangosfa newydd sy'n defnyddio deunyddiau archifol ac amgueddfeydd wedi cael ei chynhyrchu ar y cyd ag ysgolion lleol, grwpiau cymunedol a phobl Affricanaidd o'r ardaloedd yr oedd myfyrwyr y sefydliad yn tarddu ohonynt, er mwyn ailedrych ar y stori hon o wahanol safbwyntiau.

Effaith

Mae prosiectau fel y rhain yn galluogi pobl i ddysgu am dreftadaeth ddiwylliannol unigryw, amrywiol a gwerthfawr Cymru, gan ddatgelu lleisiau newydd a straeon na chawsant eu hadrodd. Maent yn creu sylfaen ar gyfer datblygu casgliadau gyda chymunedau amrywiol, gan sicrhau bod eu profiadau bywyd yn rhan annatod o'n cofnod genedlaethol, ac maent yn helpu i feithrin dealltwriaeth rhwng pobl o wahanol gefndiroedd diwylliannol, yn meithrin perthnasoedd da, ac yn brwydro yn erbyn rhagfarn.

Rhagor o wybodaeth:

archifau.cymru/profiadau-bywyd-pobl-ddu-asiacidd-ac-ethnig-leiafrifol/

diwylliantconwy.com/learn-culture/resources-from-the-archives/pwy-oedd-joe-taylor

Adlewyrchu Cynulleidfaoedd LHDTC+

Sut mae canllaw ymchwil dwyieithog i hanes LHDTC+ yn yr archifau, yn gwella dealltwriaeth pobl o brofiadau pobl LHDTC+ yn y gorffennol a'r presennol.

Crynodeb

Cyhoeddodd Archifau Morgannwg *Queering Glamorgan: A Research Guide to Sources for the Study of LGBT History* i gynorthwyo ymchwilwyr a haneswyr gyda'r gwaith o astudio hanes pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol, trawsrywiol a cwiar, ac i wella mynediad at ddeunyddiau perthnasol yn ei gasgliadau ei hun. Gan gydnabod nad yw'r hanes hwn bob amser yn cael ei gynrychioli'n dda mewn casgliadau swyddogol, roedd y canllaw hefyd yn gyfle i annog unigolion a grwpiau LHDT i ystyried adneuo eu cofnodion gyda'r gwasanaeth.

Blaenoriaethau Strategol / Sefydliadol


Mae Archifau Morgannwg, fel gyda gwasanaethau archifau ledled Cymru, yn ceisio sicrhau bod eu casgliadau'n gynrychioliadol o'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu, gan adlewyrchu'r amrywiaeth yn y cymunedau hynny yn ogystal â ffiniau daearyddol. Ar gyfer awdurdodau lleol a chyrff eraill yn y sector cyhoeddus, mae cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn flaenoriaethau allweddol, gan sicrhau eu bod yn cyflawni Dyletswydd Cydraddoldeb y sector cyhoeddus (*Deddf Cydraddoldeb 2010*) – siapio polisi a darparu gwasanaethau sy'n cael gwared â gwahaniaethu, hyrwyddo cydraddoldeb cyfle a meithrin perthynas dda rhwng gwahanol bobl.

Gweithgaredd

Cafodd *Queering Glamorgan* ei lunio ar gyfer Archifau Morgannwg gan haneswyr ac awduron sy'n arbenigo mewn ymchwil a hanes LHDTC+. Ei brif nod yw annog gwell dealltwriaeth o brofiad LHDT hanesyddol a chyfoes, ac annog unigolion a grwpiau ymgysgu o'r gymuned LHDTC+ i ystyried adneuo eu cofnodion eu hunain – gan sicrhau bod eu profiad yn cael ei adlewyrchu'n llawn mewn casgliadau archifau.

Mae'r prif elfennau yn y canllaw yn cynnwys geirfa o eiriau ac ymadroddion y gellir eu defnyddio i ymchwilio i gyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd mewn cofnodion hanesyddol. Ni ellir defnyddio terminoleg fodern yn hawdd i ddeall yr agwedd hon ar y gorffennol, ac mae ymchwilwyr yn aml yn wynebu agweddau ac iaith negyddol o fewn y cofnodion. Mae astudiaethau achos, gan ddefnyddio deunyddiau o'r casgliadau archifau, wedyn yn dangos sut y gellir llunio stori unigolyn neu sefydliad o amrywiaeth o ffynonellau.

Mae'r canllaw hefyd wedi cael ei ddefnyddio fel sail ar gyfer sesiynau hyfforddi dwyieithog



DCONC3/2/5: Heddlu Caerdydd, Cofrestr Olion Bysedd a Ffotograffig, 1914-1918, ffotograff o Abdulla Taslameden, Archifau Morgannwg.

ar gyfer gweithwyr proffesiynol archifau, llyfrgelloedd ac amgueddfeydd ledled Cymru a thu hwnt – gan feithrin gwybodaeth ac arbenigedd ar sut i adnabod, chwilio am, ac arddangos cynnwys LHDTC+ mewn casgliadau hanesyddol.

Effaith

Mae *Queering Glamorgan* yn cael ei gydnabod yn eang fel enghraifft o'r modd y gellir defnyddio archifau i archwilio a myfyrio ar hanesion a phrofiadau pobl LHDTC+. Ers ei gyhoeddi yn 2018, mae wedi cael ei ddefnyddio dros 2,500 o weithiau ac wedi cael ei rannu fel adnodd gan lawer o sefydliadau yn y DU a thu hwnt. Mae hyfforddiant sy'n seiliedig ar y canllaw wedi galluogi archifau, llyfrgelloedd ac amgueddfeydd i estyn allan at gymunedau lleol, ac i ddefnyddio'r archifau i ganfod straeon newydd, fel bod hyd a lled y profiad LHDTC+ yn cael ei adlewyrchu yn y cofnod archifol.

Rhagor o wybodaeth:

glamarchives.gov.uk/wp-content/uploads/2018/08/Queering-Glamorgan-28Aug2018.pdf

Gweithio gyda chymunedau ffoaduriaid

Gweithio gyda chymuned o bobl o Wcráin i gofnodi eu profiadau o ymgartrefu yng Ngogledd-ddwyrain Cymru, ac i gefnogi dealltwriaeth a chydlyniant cymunedol.

Crynodeb

Mae Archifau Gogledd Ddwyrain Cymru wedi bod yn gweithio i gasglu straeon ffoaduriaid o'r rhyfel yn Wcráin, gan sicrhau bod eu profiad yn cael ei gofnodi ar gyfer y dyfodol, a hyrwyddo dealltwriaeth o'r gwahanol ddiwylliannau a chymunedau sydd wedi ymgartrefu yn yr ardal leol.

Blaenoriaethau Strategol / Sefydliadol

Mae cymorth i geiswyr lloches a ffoaduriaid yn flaenoriaeth strategol i awdurdodau lleol ledled Cymru, yn unol â Chynllun Llywodraeth Cymru *Cenedl Noddfa – Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches*. Nod *Cynllun Corfforaethol 2022-27* Cyngor Sir Ddinbych yw cefnogi ac ailsefydlu ffoaduriaid, fel rhan o'r datganiad hwn i fod yn Genedl Noddfa, ac mae Cyngor Sir y Fflint yn rhan o rwydwaith awdurdodau lleol 'Dinas Noddfa', sydd wedi ymrwymo i'w weledigaeth a'i werthoedd i gefnogi a chroesawu ffoaduriaid a cheiswyr lloches.

Gweithgaredd

Mae Archifau Gogledd Ddwyrain Cymru (AGDdC) yn darparu gwasanaeth archif ar y cyd ar gyfer siroedd Sir Ddinbych a Sir y Fflint. Mae'n casglu cofnodion sy'n ymwneud â'r meysydd hyn, ac yn eu cadw ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol ac i'w defnyddio heddiw, i gefnogi blaenoriaethau'r ddau gyngor, ac i ymgysylltu â phobl o bob rhan o'i gymunedau amrywiol a thu hwnt.

Gyda'r ddwy sir yn croesawu ffoaduriaid o'r rhyfel yn Wcráin, roedd hi'n bwysig bod AGDdC yn sicrhau bod eu profiadau'n cael eu hadlewyrchu yng nghofnod dogfennol yr ardal. Felly, cysylltodd staff o AGDdC â Chanolfannau Wcráin yn Sir Ddinbych a Sir y Fflint, i gwrdd ag aelodau o'r gymuned a dechrau'r broses o gasglu eu straeon i'w cadw i'r dyfodol.

Ar ôl y cyfarfodydd cychwynnol hyn yn yr Hybiau, dosbarthwyd taflenni dwyieithog (Saesneg ac Wcreineg) i'w cylchredeg i'r gymuned, gan ofyn am eu help. Cynhaliwyd sesiwn beilot hefyd gyda staff o Wcráin a oedd yn cael eu cyflogi gan Gyngor Sir y Fflint, a gynhyrchodd recordiadau sain, a gofynnwyd am gofnodion ysgrifenedig o'u profiad. Mae



Archifau Gogledd Ddwyrain Cymru
North East Wales Archives

Архів Північно-Східного Уельсу

ПОДІЛІТЬСЯ СВОЇМИ ІСТОРІЯМИ



Ми є архівною службою Північно-Східного Уельсу і збираємо історії нашої спільноти

Ви є частиною нашої спільноти, і ми хотіли б зібрати ваші історії, щоб зберегти їх на майбутнє

Для майбутніх поколінь важливо знати ваш досвід виїзду з України та проживання в Північно-Східному Уельсі

Taflen iaith Wcreineg yn hysbysebu'r digwyddiad yn Archifau Gogledd Ddwyrain Cymru

AGDdC bellach yn gweithio gyda llyfrgelloedd ar draws y ddwy sir ar gynlluniau i ymestyn y gwaith yma. Byddai hyn yn cynnwys cynnal sesiynau pellach gyda phobl o'r gymuned, gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau i'w helpu i gofnodi eu profiad – gan gynnwys prosiectau fideo, sain, ysgrifenedig a gwaith celf.

Effaith

Fel Cenedl Noddfa, mae Cymru'n ceisio sicrhau bod ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn cael eu cefnogi i ailadeiladu eu bywydau a gwneud cyfraniad llawn i gymdeithas Cymru. Mae gwaith AGDdC i gasglu straeon ffoaduriaid o Wcráin yng Ngogledd Ddwyrain Cymru yn bwysig er mwyn i bobl yn y dyfodol wybod beth ddigwyddodd nid yn unig ar lefel ryngwladol, ond hefyd i bobl unigol a wnaeth y daith hon i Gymru. Mae hefyd yn cefnogi dealltwriaeth ddiwylliannol, gan hyrwyddo cydlyniant cymunedol, cynhwysiant a chhydraddoldeb i bobl sy'n ceisio noddfa a bywyd newydd.

Rhagor o wybodaeth:

www.newa.wales/wp-content/uploads/2023/11/AGDdC-Cylchlythyr-Rhif-7-TACH-2023-CYM-com.pdf

Cofnodion pobl a fabwysiadwyd a phobl â phrofiad o ofal

Sicrhau arfer da wrth reoli cofnodion pobl sydd wedi'u mabwysiadu a phobl sydd â phrofiad o ofal, ar gyfer hunaniaeth a lles personol.

Crynodeb

Roedd gwasanaethau archifau yng Nghymru yn bartneriaid yn y gwaith o ddatblygu canllawiau newydd ar gyfer ceidwaid cofnodion a gweithwyr gofal proffesiynol yng Nghymru a Lloegr ar arferion da wrth reoli cofnodion pobl sydd wedi'u mabwysiadu a phobl sydd â phrofiad o ofal. Mae'r cofnodion hyn yn hanfodol i hunaniaeth bersonol yr unigolion dan sylw, ond mae iddynt hefyd arwyddocâd hanesyddol ehangach, gan adlewyrchu agweddau ac arferion cymdeithasol sy'n newid.

Blaenoriaethau Strategol / Sefydliadol

Mae gan awdurdodau lleol gyfrifoldebau statudol dan Ddeddf Plant 1989 dros blant sy'n derbyn gofal, ac o dan *Ddeddf Mabwysiadu a Phlant* 2002 am gynnal gwasanaeth mabwysiadu, gan gynnwys gwasanaethau a ddarperir ar y cyd â chymdeithasau mabwysiadu cofrestredig. Mae canllawiau a rheoliadau statudol yn nodi gofynion ar gyfer creu, cynnal a darparu mynediad at gofnodion mabwysiadu ac achosion cysylltiedig, y dylid eu cadw am 100 a 75 mlynedd yn y drefn honno. Mae rheolaeth dda ar y cofnodion hyn yn hanfodol ar gyfer y bobl dan sylw, ac ar gyfer atebolrwydd (er enghraifft, fel tystiolaeth mewn ymchwiliadau cam-drin hanesyddol).

Gweithgaredd

Datblygwyd y canllawiau hyn gan y Grŵp Prif Archifwyr mewn Llywodraeth Leol (CALGG) i gydnabod yr angen hollbwysig am arferion cadw cofnodion gwell a mwy cyson, ac yng ngoleuni canmlwyddiant y ddeddfwriaeth wreiddiol, *Deddf Mabwysiadu Plant* 1926.

Ar gyfer pobl sydd â phrofiad o ofal neu sydd wedi'u mabwysiadu, mae ailadeiladu eu hanesion personol yn aml yn dibynnu ar y cofnodion sy'n cael eu creu amdanynt gan weithwyr cymdeithasol a darparwyr gofal. Gwneir miloedd o geisiadau i edrych ar gofnodion at y diben hwn bob blwyddyn yng Nghymru a Lloegr. Fodd bynnag, gall fod yn anodd cael gafael ar gofnodion gofal cymdeithasol, yn ymarferol ac yn emosiynol – yn bennaf oherwydd anghysondebau yn eu rheolaeth ar draws y sectorau gofal cyhoeddus, preifat a gwirfoddol.



I gydnabod y materion hyn, darparodd amrywiaeth o bartneriaid, gan gynnwys yr Archifau Cenedlaethol yn Lloegr, Llywodraeth Cymru, a gwasanaethau archifau eu hunain, gyllid i CALGG ddatblygu'r prosiect hwn. Roedd hyn yn galluogi gwaith i gasglu gwybodaeth am hyd a lled a fformat y cofnodion hyn, a ble maen nhw'n cael eu cadw – boed hynny mewn asiantaethau annibynnol neu awdurdodau lleol – ac i archwilio safbwyntiau'r rheini sy'n creu ac yn rheoli'r cofnodion, a'r bobl sydd â phrofiad o ofal a phobl sydd wedi'u mabwysiadu eu hunain, ar yr hyn yr oedd ei angen i wella rheolaeth a mynediad.

Effaith

Mae'r canllawiau dilynol yn darparu model 'arfer gorau' ar gyfer rheoli cofnodion mabwysiadu a phlant 'sy'n derbyn gofal', gyda'r nod o sicrhau cysondeb i safonau cadw cofnodion a chefnogi gwaith gweithwyr gofal a cheidwaid cofnodion proffesiynol a'r sefydliadau y maent yn gweithio iddynt. Yn bwysig, mae hefyd yn ystyried safbwyntiau pobl sydd â phrofiad o ofal a phobl sydd wedi'u mabwysiadu, gan roi gwell dealltwriaeth i ymarferwyr o'u hanghenion a'r heriau y maent yn eu hwynebu wrth gael gafael ar y cofnodion hyn.

Rhagor o wybodaeth:

www.archives.org.uk/care-and-adoption-records

Cefnogi cofrestru pleidleiswyr tramor

Mae gwasanaethau archifau ledled Cymru yn cefnogi dinasyddion Prydeinig sy'n byw dramor i gofrestru i bleidleisio mewn etholiadau i Senedd y DU.

Crynodeb

Ar ôl cyflwyno 'pleidleisiau am oes' o 2024 ymlaen, mae pob dinesydd Prydeinig sy'n byw dramor bellach yn gymwys i gofrestru i bleidleisio yn etholiadau seneddol y DU, ar yr amod bod modd dilysu tystiolaeth o gofrestru neu breswyllo yn y DU yn y gorffennol. Mae gwasanaethau archifau yn cefnogi awdurdodau lleol i ganfod a dilysu tystiolaeth o gofrestrau etholiadol a gedwir yn yr archifau, er mwyn eu galluogi i gyflawni eu dyletswyddau statudol, ac i gynnal hawliau democrataidd dinasyddion Prydeinig sy'n byw dramor.

Blaenoriaethau Strategol / Sefydliadol

Mae cofrestru pleidleiswyr ar gyfer etholiadau seneddol a llywodraeth leol yn gyfrifoldeb statudol i gynghorau lleol sydd, dan Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, yn gorfod penodi swyddog o'r cyngor i fod yn swyddog cofrestru i gynnal cofrestrau (y gofrestr etholiadol) o etholwyr seneddol a llywodraeth leol. Mae cymhwysedd i gofrestru fel pleidleisiwr tramor wedi'i nodi mewn deddfwriaeth, Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1985 fel y'i diwygiwyd.

Gweithgaredd

Yn y gorffennol, dim ond yn etholiadau seneddol y Deyrnas Unedig am 15 mlynedd ar ôl iddynt adael y DU yr oedd dinasyddion Prydain a oedd yn byw dramor yn gallu pleidleisio. Ar 16 Ionawr 2024 newidiodd y rheolau ar gymhwysedd, a diddymwyd y rheol 15 mlynedd dan y polisi 'pleidleisio am oes'. Yn dilyn y newid hwn, mae'r holl bleidleiswyr tramor yn gymwys i bleidleisio ar yr amod eu bod naill ai wedi'u cofrestru'n flaenorol i bleidleisio yn etholiadau'r DU (gan gynnwys fel pleidleisiwr tramor) neu wedi byw yn y DU cyn symud i gyfeiriad dramor.

Mae pleidleiswyr tramor yn gwneud cais i gofrestru yn awdurdod lleol y cyfeiriad diwethaf lle roeddent wedi'u cofrestru i bleidleisio neu'n breswyllo, a rhaid i swyddogion cofrestru etholiadol yn yr awdurdod hwnnw ddilysu'r wybodaeth a ddarperir, fel arfer gan gyfeirio at gofrestrau etholiadol hanesyddol.



Mae awdurdodau lleol wedi adnewo'r cofrestrau etholiadol hyn yn gyson gyda'u gwasanaeth archifau. Felly, mae gwasanaethau archifau yn adnodd allweddol i'w rhiant-awdurdod o ran cefnogi'r gofynion hyn, gan ddarparu mynediad at y cofrestrau, neu chwilio drwy'r cofrestrau, er mwyn canfod y dystiolaeth sydd ei hangen i wirio ceisiadau.

Effaith

Yn Etholiad Cyffredinol mis Rhagfyr 2019, roedd 233,000 o bleidleiswyr tramor wedi'u cofrestru; amcangyfrifir y byddai dod â'r rheol 15 mlynedd i ben yn golygu y byddai tua 3.5 miliwn o ddinasyddion Prydeinig sy'n byw dramor yn dod yn gymwys i bleidleisio. Bydd y gefnogaeth a ddarperir gan wasanaethau archifau awdurdodau lleol ar gyfer y broses hon yn hanfodol er mwyn galluogi awdurdodau lleol i gyflawni eu cyfrifoldebau etholiadol, a thrwy hynny sicrhau bod pleidleiswyr tramor yn gallu arfer eu hawl i bleidleisio.

Rhagor o wybodaeth:

commonslibrary.parliament.uk/research-briefings/sn05923/

Astudiaeth Achos: Defnyddio archifau ar gyfer Presgrisiynu Cymdeithasol

Meithrin partneriaethau i rymuso pobl ag anableddau dysgu, chwalu rhwystrau i fynediad at archifau, a gwella iechyd a llesiant

Crynodeb

Mae gwaith Archifau Morgannwg gyda Pobl yn Gyntaf Caerdydd (Cardiff People First) yn dangos effaith dulliau presgripsiynu cymdeithasol, gan gysylltu pobl ag anableddau dysgu ag asedau cymunedol a wnaeth eu galluogi i archwilio a deall eu profiadau eu hunain, a datblygu sgiliau newydd i adrodd y stori honno. Gan adeiladu ar y cysylltiadau a wnaed drwy'r bartneriaeth hon, mae Archifau Morgannwg bellach yn gweithio gyda grwpiau People First eraill yn y cymunedau y mae'n eu gwasanaethu.

Blaenoriaethau Strategol / Sefydliadol

Mae archifau ledled Cymru yn ceisio gweithio ochr yn ochr â gwahanol sefydliadau cymunedol i sicrhau bod pawb yn gallu cysylltu â hanes a threftadaeth eu hardal leol. Mae *Fframwaith Cenedlaethol* newydd Llywodraeth Cymru ar gyfer *Presgripsiynu Cymdeithasol* yn ffurfioli egwyddorion defnyddio asedau cymunedol, fel gwasanaethau archifau, i rymuso pobl a chymunedau i wella eu hiechyd a'u llesiant personol. Gall arwdurdodau lleol ledled Cymru ddefnyddio'r dull hwn i gyflawni eu hamcanion dan *Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015* ac i gefnogi llesiant corfforol, meddyliol a chymdeithasol eu cymunedau lleol.

Gweithgaredd

Dechreuodd Archifau Morgannwg a Pobl yn Gyntaf Caerdydd, grŵp hunan-eiriolaeth yn cael ei redeg gan ac ar gyfer pobl ag anableddau dysgu, weithio gyda'i gilydd yn 2011 ar Brosiect Ysbyty Trelái. Defnyddiodd aelodau o Pobl yn Gyntaf Caerdydd y cofnodion a gedwir yn yr Archifau i ddarganfod mwy am hanes Ysbyty Trelái, lle'r oedd rhai ohonynt wedi bod yn breswylwyr, ac i gyfrannu at greu eu harddangosfa prosiect eu hunain. Cafodd eu stori ei ffilmio hefyd, i ddangos sut roedden nhw wedi defnyddio'r archifau – ffilm a aeth ymlaen i ennill gwobr yn 2016: Cardiff People First Film.

Ers hynny, mae'r ddau sefydliad wedi cydweithio ar nifer o brosiectau llwyddiannus, gan gynnwys *Our Cultural Lives*, lle bu aelodau'n defnyddio archifau i archwilio hanes cymunedau amrywiol yn Ne Cymru, gan ychwanegu at eu straeon personol eu hunain a datblygu eu llwybrau treftadaeth eu hunain. Dilynwyd hyn gan *Ddiwrnodau Meddiannu* People First, sydd bellach yn ddigwyddiad blynyddol, pryd y bydd aelodau'n 'cymryd meddiant' ar yr Archifau ac yn gwneud gwaith y staff am y diwrnod, yn gweithio gyda'r dogfennau a'r cyhoedd, ac yn arwain teithiau y tu ôl i'r llenni.



Pobl yn Gyntaf Caerdydd yn Meddiannu Ystafell Chwilio Archifau Morgannwg, 2017

Yn dilyn ymlaen o'r bartneriaeth hon, gwnaed cysylltiadau newydd gyda grwpiau 'People First' eraill yn yr ardal leol, yn ogystal â phartneriaid cymunedol eraill – grwpiau tai, asiantaethau cyflogaeth ac ysgolion arbennig. Mae Archifau Morgannwg hefyd bellach yn gweithio gyda grwpiau hunan-eiriolaeth ac archifau ledled y DU ar brosiect dan arweiniad y Brifysgol Agored i greu archif o hanes anabledd dysgu.

Effaith

Mae defnyddio archifau wedi helpu i rymuso cyfranogwyr i adnabod eu hanghenion, eu cryfderau a'u hasedau personol eu hunain, gan wella iechyd a llesiant. Mae gweithio gyda Pobl yn Gyntaf Caerdydd ar Brosiect Ysbyty Trelái hefyd wedi chwalu llawer o rwystrau – drwy herio syniadau rhagdybiedig ar y ddwy ochr ac arwain at newidiadau cadarnhaol o ran hygyrchedd yn y dyfodol. Gyda'i gilydd, mae Archifau Morgannwg a Pobl yn Gyntaf Caerdydd wedi profi bod archifau yn bethau ar gyfer pawb.

Rhagor o wybodaeth:

www.cardiffpeoplefirst.org.uk/wp-content/uploads/2021/03/cpf_takeover_evaluation.pdf

Cof Cenedl

Diogelu'r archifau sy'n ein helpu ni i ddeall ein stori genedlaethol, ac i lywio datblygiad cynaliadwy ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Crynodeb

Sefydlwyd Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn 1907 gan Siarter Frenhinol, ac mae'n gweithredu fel y storfa ar gyfer archifau llawer o'n sefydliadau a'n mudiadau cenedlaethol, yn ogystal â phapurau teuluoedd ac unigolion sydd wedi gwneud cyfraniadau sylweddol i'n bywyd cenedlaethol. Mae'n gweithio ochr yn ochr â chyrff cenedlaethol eraill, gan gynnwys Amgueddfa Cymru, a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru, i ddiogelu a darparu mynediad at archifau sy'n ganolog i'n hunaniaeth, ein diwylliant a'n hiaith genedlaethol.

Blaenoriaethau Strategol / Sefydliadol

Mae *Cynllun Strategol Llyfrgell Genedlaethol Cymru 2021-26 Llyfrgell i Gymru a'r Byd* yn pwysleisio ei lle wrth galon ein bywyd cenedlaethol, mewn byd sy'n newid. Mae'n gosod *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015* wrth wraidd ei chynllunio i feithrin a gofalu am gof y genedl, hyrwyddo'r Gymraeg, a chefnogi'r economi wybodaeth, dysgu ac ymchwil.

Gweithgaredd

Mae'r Llyfrgell Genedlaethol yn cadw ac yn hyrwyddo mynediad at amrywiaeth eang o archifau sy'n cofnodi ac yn dathlu ein bywyd cenedlaethol. O bapurau personol, papurau teuluoedd ac ystadau, i archifau corfforaethol, papurau a llawysgrifau llenyddol, a'r casgliadau yn Archif Wleidyddol Cymru ac Archif Cerddoriaeth Cymru.

Mae ganddi gasgliadau ffotograffig sylweddol sy'n ymwneud â Chymru, ac Archif Sgrin a Sain sy'n gwarchod, yn hyrwyddo ac yn dathlu ein treftadaeth o ran sain a delweddau symudol. Yn 2023, agorodd Archif Ddarlledu Cymru i'r cyhoedd yn y Llyfrgell. Dyma'r archif ddarlledu genedlaethol gyntaf yn y DU, gan ddod ag archifau BBC Cymru, ITV Cymru ac S4C at ei gilydd i roi mynediad at dros ganrif o deledu a radio.

Gyda'i gilydd, mae'r casgliadau hyn yn sail i brosiectau addysg, ymchwil a chreadigol eang sy'n dathlu Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. Mae'r Llyfrgell Genedlaethol yn gweithio i rannu'r casgliadau hyn yn ffisegol ac ar-lein, ac yn creu cyfleoedd i bobl gymryd rhan a dysgu, drwy ei gwasanaethau o ddydd i ddydd, a thrwy brosiectau a phartneriaethau penodol. Mae hyn yn cynnwys prosiectau gyda chymunedau lleol, a phwyntiau mynediad parhaol yn Hwlfordd, ac yng 'Nghorneli Clip' yr Archif Ddarlledu ledled Cymru.



©Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Effaith

Mae ein casgliadau cenedlaethol yn ymgorffori cof ein cenedl – gan ddatgelu ein gorffennol, esbonio ein presennol, a helpu i arwain ein dyfodol fel cenedl gydnerth a balch. Mae casgliadau archifau y Llyfrgell Genedlaethol, a'i rôl o ran cofnodi Cymru gyfoes yn ei holl amrywiaeth, yn ei gwneud yn adnodd allweddol ar gyfer cysylltu cymunedau, hyrwyddo cyd-ddealltwriaeth, a chefnogi ymchwil ac arloesedd ar gyfer dyfodol cynaliadwy.

Rhagor o wybodaeth:

www.llyfrgell.cymru/catalogau-chwilio/am-ein-casgliadau/archifau

www.llyfrgell.cymru/catalogau-chwilio/am-ein-casgliadau/archif-sgrin-a-sain <https://www.llyfrgell.cymru/archif-ddarlledu-cymru>

Prosiect Deiseb Heddwch Menywod Cymru

Dathlu Canmlwyddiant Apêl Heddwch Menywod Cymru 1923-24.

Crynodeb

Mae Deiseb Heddwch Menywod Cymru i America yn 1923 yn enghraifft ysbrydoledig o'r 'hanesion cudd' sydd i'w gweld yn ein harchifau. Cyflwynwyd deiseb Goffa, wedi'i llofnodi gan 390,296 o fenywod Cymru, i fenywod America yn 1924, ac fe'i cadwyd yn Washington DC, nes iddi gael ei throsglwyddo i Lyfrgell Genedlaethol Cymru yn 2023. Mae ei galwad am heddwch yn taro tant heddiw, gyda'i stori erbyn hyn yn ffocws ar gyfer gweithgarwch i ysbrydoli cenedlaethau newydd i ymgynhyrchu at fyd heb ryfel.

Blaenoriaethau Strategol / Sefydliadol

Mae'r prosiect hwn yn deillio o waith Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru, a'r Academi Heddwch, 'sefydliad heddwch' cyntaf Cymru, sy'n ceisio rhoi heddwch yn gadarn ar agenda genedlaethol Cymru, gan ganolbwyntio'n benodol ar dreftadaeth heddwch. Nod eu partner, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, yw grymuso "pobl Cymru gydag ymwybyddiaeth ddofn o'u gorffennol, dealltwriaeth o'r presennol, ac ysbrydoliaeth i lunio eu dyfodol." Mae'r prosiect hwn yn ymgorffori'r delfrydau hyn yng nghyd-destun y mudiad heddwch a hanes menywod, gan ddarparu ffocws ar gyfer gweithgarwch sy'n hyrwyddo byd tecach a mwy heddychlon.

Gweithgaredd

Trefnwyd ymgyrch Heddwch Menywod 1923 gan Bwyllgor Menywod Undeb Cymru o Gynghrair y Cenhedloedd yn dilyn erchyllterau'r Rhyfel Mawr. Roedd yn apêl i fenywod America ymuno â rhai Cymru i alw am heddwch, ac i'r Unol Daleithiau ymuno â Chynghrair newydd y Cenhedloedd a'i harwain.

Yn ymdrech hynod ledled Cymru, roedd yr ymgyrch yn cynnwys bron pob cartref yng Nghymru, gydag ymgyrchwyr heddwch, ynghyd â chefnogaeth trefnwyr sirol a chymunedol, yn mynd o ddrws i ddrws i gasglu llofnodion. Yna teithiodd dirprwyaeth heddwch o Gymru i America ym mis Mawrth 1924 ar gyfer 'Taith Heddwch' am ddau fis gyda chefnogaeth gan sefydliadau menywod America. Cafodd y ddeiseb a'r gist dderw a oedd yn gartref iddi eu cadw a'u harddangos yn Amgueddfa Genedlaethol Hanes America (rhan o Sefydliad Smithsonian), yn Washington DC.

Yn 2019, ffurfiwyd partneriaeth Deiseb Heddwch Menywod newydd, gan weithio gyda Llyfrgell Genedlaethol Cymru, i fenthylu y gist a rhai o'r deisebau i ddathlu canmlwyddiant yr apêl wreiddiol. Yn y pen draw, arweiniodd y drafodaeth at drosglwyddo'r ddeiseb a'i chist yn barhaol i Lyfrgell Genedlaethol Cymru, lle mae wedi'i chatalogio a'i digideiddio.



Deiseb Heddwch Menywod Cymru 1923, a gyflwynwyd i fenywod America. Yn y llun uchod o Fawrth 1924 yn Washington mae Mrs Gladys Thomas, Miss Mary Ellis, Annie-Jane Hughes-Griffiths a Miss Elined Prys. ©WCIA.

Gyda chyllid gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, mae prosiect cenedlaethol ar y gweill i drawsgrifio enwau'r llofnodwyr – gan ddefnyddio cyfrannu torfol i greu adnodd sydd ar gael i'r cyhoedd ac y gellir chwilio drwyddo – gan adeiladu ar etifeddiaeth yr ymgyrchwyr gwreiddiol.

Effaith

Yn ogystal â gwaith digideiddio a thrawsgrifio, bydd y ddeiseb yn cael ei harddangos ledled Cymru, gan gynnwys pobl i ddarganfod, dysgu am y rôl a chwaraeodd menywod yng Nghymru yn mudiad heddwch y wlad, a'i rhannu. Bydd yr adnoddau addysgol sy'n deillio o hyn hefyd yn annog ysgolion, mudiadau pobl ifanc a grwpiau cymunedol i ddysgu am dreftadaeth heddwch Cymru a chymryd rhan ynddi.

Rhagor o wybodaeth:

www.llyfrgell.cymru/deisebheddwch

www.wcia.org.uk/cy/academi-heddwch-cymru/deisebheddwch/

Newid Hinsawdd yn yr Archifau

Defnyddio archifau i gynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth o effaith newid yn yr hinsawdd ar ein treftadaeth arfordirol, ac i gynllunio ar gyfer y dyfodol.

Crynodeb

Bu Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru (RCAHMW) yn gweithio gyda phartneriaid yng Nghymru ac Iwerddon, yn arwain prosiect chwe blynedd (2017-23) a ariannwyd gan yr UE *Climate, Heritage and Environment of Reefs, Island and Headlands* (CHERISH) i archwilio effaith newid yn yr hinsawdd ar asedau treftadaeth ar dir ac o dan y môr, a datblygu arfer gorau ar gyfer addasu i newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol.

Blaenoriaethau Strategol / Sefydliadol

Mae Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru yn gweithio i gefnogi nodau *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015* gyda ffocws allweddol yn ei *Gynllun Gweithredol 2022-26* ar waith maes ac ymchwil sy'n mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur. Mae'n ceisio cynyddu gwybodaeth, capasiti a gallu i ddelio â sut mae newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar dreftadaeth Cymru, a sicrhau bod penderfyniadau treftadaeth heddiw yn gynaliadwy yn amgylcheddol.

Gweithgaredd

Defnyddiodd y prosiect CHERISH amrywiaeth o dechnegau a dulliau i astudio safleoedd treftadaeth yng Nghymru ac Iwerddon y mae newid yn yr hinsawdd yn effeithio arnynt, drwy godi lefelau'r môr a digwyddiadau tywydd. Roedd ymchwil archifol yn elfen allweddol o'r gwaith hwn, gan ddefnyddio dogfennau hanesyddol, mapiau a darluniau i helpu i ddadansoddi newid arfordirol.

Mae atlasau hanesyddol, mapiau, siartiau ac arolygon, yn darparu tystiolaeth gyfoes o sut roedd yr arfordir yn edrych yn y gorffennol, y gellir ei gymharu â'r safle heddiw. Mae darluniau hynafiaethol a hen ffotograffau yn dangos ac yn cefnogi dealltwriaeth o fordwyo a defnyddio safleoedd arfordirol. Mae dogfennau hanesyddol hefyd yn darparu disgrifiadau manwl wedi'u dyddio'n union o arsylwadau tywydd – er enghraifft, y rhai a geir mewn llyfrau log harbyrau, gwylwyr y glannau a goleudai sy'n dystiolaeth o amodau tywydd sy'n dyddio'n ôl i gyfnod cyn bodolaeth cofnodion meteorolegol modern.

Defnyddiodd y prosiect CHERISH gofnodion o'i ardaloedd astudiaeth i lywio ei waith ei hun, ac fel rhan o fentrau ehangach i achub data tywydd ar gyfer ymchwil hinsoddegol wyddonol. Defnyddiwyd ffynonellau archifol fel dyddiaduron a gohebiaeth bersonol, cofnodion teithio, adroddiadau papur newydd, a llyfrau log i gasglu tystiolaeth o stormydd, llifogydd a newid arfordirol hanesyddol. Mae ffynonellau o'r fath hefyd yn dyfnhau dealltwriaeth o brofiad



CH2022_067_001: Delwedd ailadeiladol o gaer arfordirol Dinas Dinlle, Gwynedd, o'r gogledd-orllewin, eitem o prosiect CHERISH. Gwaith celf gan Wessex Archaeology (Tristan Bradburn, Jonathan Sutton a Will Foster). Cynhyrchwyd gydag arian yr UE drwy Raglen Gydweithredu Iwerddon Cymru 2014-2020.

pobl o dywydd eithafol, pa mor barod oeddent, a sut yr oeddent yn ymateb i ddigwyddiadau penodol ac yn ymdopi â nhw.

Effaith

Gwaddol y prosiect hwn yw set o 'offer addasu' sy'n cyfrannu'n uniongyrchol at Strategaethau'r Llywodraeth ar Newid yn yr Hinsawdd, a darparu set o ddata mynediad agored i lywio'r broses o wneud penderfyniadau yn y dyfodol. Bydd y data sylfaenol a gynhyrchir gan y prosiect yn galluogi monitro newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol yn ardaloedd astudiaeth y prosiect, ac mae data a chynlluniau rheoli yn nodi safleoedd sydd mewn perygl o gael eu colli yn y dyfodol. Mae ei waith gyda dinasyddion-wyddonwyr hefyd wedi cynyddu gwybodaeth, sgiliau ac ymwybyddiaeth mewn cymunedau arfordirol.

Rhagor o wybodaeth:

<https://cherishproject.eu/en/tool-kit/archives/>

<https://rcahmw.gov.uk/about-us/our-recording-work/cherish-climate-change-and-coastal-heritage-eu-funded-project/>

Storio archifau mewn modd effeithlon o ran ynni

Datblygu cyfleuster archifau ynni effeithlon newydd ar gyfer Archifau Sir Gaerfyrddin, wrth ochr Llyfrgell Caerfyrddin.

Crynodeb

Ail-agorodd Archifdy Sir Gâr i'r cyhoedd ym mis Gorffennaf 2022 ar ôl prosiect mawr i adleoli'r gwasanaeth i lety pwrpasol newydd wrth ochr Llyfrgell Caerfyrddin. Cynlluniwyd y cyfleuster newydd i fodloni safonau Passivhaus, a darparu llety amgylcheddol-gadarn ac effeithlon o ran ynni ar gyfer casgliadau archifau'r sir.

Blaenoriaethau Strategol / Sefydliadol

Mae *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015* yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru feddwl am effaith hirdymor yr hyn maen nhw'n ei wneud, a gwella llesiant amgylcheddol Cymru. Felly, cynlluniwyd y prosiect hwn i fodloni meini prawf datblygu cynaliadwy, yn enwedig dylunio carbon isel, effeithlonrwydd ynni a lleihau gwastraff. Aeth Cyngor Sir Gâr ymhellach yn 2019, gan ddatgan argyfwng hinsawdd a gwneud yr ymrwymiad i ddod yn awdurdod lleol carbon sero net erbyn 2030, gyda ffocws clir ar leihau ei ôl troed carbon mesuradwy.

Gweithgaredd

Felly, roedd effeithlonrwydd ynni a chynaliadwyedd amgylcheddol wrth wraidd cynlluniau i ddatblygu'r cyfleuster archifau newydd, a oedd angen darparu ar gyfer storio casgliadau archifau o arwyddocâd rhyngwladol Sir Gaerfyrddin yn ddiogel.

Mae diogelu'r casgliadau hyn yn dibynnu ar gynnal amgylchedd storio sefydlog gyda thymheredd a lleithder yn cael eu rheoli – er mwyn darparu'r amodau gorau posibl i alluogi deunyddiau archifol i oroesi, ac atal lleithder a difrod gan lwydni. Yn flaenorol, y dull o gyflawni hyn oedd drwy ddefnyddio systemau rheoli adeiladau, sy'n defnyddio gwres a dadleithio i gynnal amodau amgylcheddol – systemau sy'n defnyddio llawer o ynni ac sy'n fwyfwy costus i'w rhedeg a'u cynnal. Felly, penderfynodd Sir Gaerfyrddin ddatblygu ei gyfleuster storio newydd i fodloni safonau Passivhaus.

Mae Passivhaus yn fanyleb Ewropeaidd gadarn sy'n gweithio drwy inswleiddio'r adeilad i'r lefelau mwyaf effeithiol, gan sicrhau lefel uchel o effeithlonrwydd ynni. Wrth adeiladu, defnyddir deunyddiau sydd ag inertia thermol uchel a lefelau uchel o inswleiddio i gynnal tymhereddau sefydlog yn y gofod mewnol. Mae gwaith adeiladu sy'n aerglos hefyd yn lleihau ymdreiddiad aer naturiol a lleithder i gynnal lefelau lleithder sefydlog.



Effaith

Mae Archifdy Sir Gaerfyrddin bellach yn gallu cynnal amodau storio amgylcheddol priodol ar gyfer ei gasgliadau drwy gydol y flwyddyn, gyda llawer llai o gostau ynni. Mae'n cyfrannu'n weithredol at nodau corfforaethol i leihau allyriadau carbon; yn cadw ei gasgliadau ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol; ac yn darparu gwasanaeth cynaliadwy i'r sir.

Rhagor o wybodaeth:

www.sirgar.llyw.cymru/cartref/gwasanaethaur-cyngor/llyfrgelloedd-ac-archifau/archifau-sir-gaerfyrddin/

Archifau Cof ar gyfer iechyd a llesiant

Defnyddio archifau i hel atgofion gyda phobl sy'n byw â dementia, gan hybu iechyd a llesiant.

Crynodeb

Mae'r *Archif Cof* yn fenter gan Casgliad y Werin Cymru a arweinir gan Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru (RCAHMW) sy'n darparu cyfres o ddeunyddiau archif digidol wedi'u curadu i hwyluso'r gwaith o hel atgofion gyda phobl sy'n byw â dementia.

Blaenoriaethau Strategol / Sefydliadol

Mae Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru yn gweithio i gefnogi nodau *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015* gyda ffocws allweddol yn ei Gynllun Gweithredol 2022-26 ar gefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i fod yn genedl ystyriol o oedran. Mae'n ceisio hybu iechyd a llesiant, a chreu cyfleoedd ar gyfer presgripsiynu cymdeithasol i fynd i'r afael â theimlo'n ynysig, cefnogi llesiant mewn grwpiau agored i niwed a difreintiedig, a chreu cyfleoedd i bobl o bob oed a chefnidir.

Gweithgaredd

Mae'r *Archif Cof* yn cael ei chynnal ar wefan Casgliad y Werin Cymru, sy'n darparu cyfres o ddeunyddiau archif digidol am ddim wedi'u curadu sy'n addas ar gyfer gwaith hel atgofion gyda phobl sy'n byw â dementia. Mae'n cynnwys deg ar hugain o gasgliadau o ddelweddau, clipiau fideo a recordiadau sain o gasgliadau Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, wedi'u trefnu yn ôl cyfnod amser (1940au i 1980au) a thema (er enghraifft, y Nadolig, ffermio, bywyd ysgol, cerddoriaeth), ond i gyd o fewn cof rhai sy'n fyw heddiw.

Cafodd y casgliadau hyn eu rhoi at ei gilydd gyda chymorth gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, a gellir eu lawrlwytho a'u hargraffu'n hawdd i'w defnyddio mewn sesiynau hel atgofion. Mae cyfres o bosteri Coeden Cof a Llinell Amser hefyd yn cael eu darparu i'w defnyddio gyda gweithgareddau hel atgofion.

Yn ogystal, mae'r *Archif Cof* yn adnodd addysgu ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a Chyfnodau Allweddol 2 i 4 i gynorthwyo gyda chodi ymwybyddiaeth o ddementia – gan egluro'r syniad o hel atgofion a pham ei fod yn bwysig i bobl sy'n byw â dementia.



Gwers mathemateg, Ysgol Gynradd Gymraeg Teilo Sant ©Ysgol Gynradd Gymraeg Ysgol Teilo Sant

Effaith

Mae gan archifau botensial enfawr fel deunydd ffynhonnell i greu gweithgareddau, teithiau cerdded, straeon a gwaith celf sy'n helpu i ysgogi atgofion a chof i'r rheini sy'n byw gyda dementia – gan gefnogi iechyd a llesiant y rhai sy'n byw yn y gymuned ac mewn amgylcheddau gofal cymdeithasol. Mae Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru yn parhau i weithio gyda Casgliad y Werin Cymru, a phartneriaid yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac Amgueddfa Cymru i ddatblygu prosiect yr Archif Cof ymhellach. Mae gan wasanaethau archifau lleol eraill y potensial hefyd i ddefnyddio eu casgliadau i gefnogi gweithgarwch tebyg yn eu cymunedau.

Rhagor o wybodaeth:

www.casgliadywerin.cymru/users/29941

cbhc.gov.uk/archif-cof-hybu-iechyd-a-llesiant/

<https://cbhc.gov.uk/amdanom-ni/gwybodaeth-gorfforaethol/cydraddoldeb-ac-amrywiaeth/archif-cof/>

